***CAIS AM DRWYDDED MANGRE DROS DRO: FFERM CWM CAYO, GWEHELOG, BRYNBUGA, NP15 1HS***

Yn unol gyda Deddf Trwyddedu 2003 fel sydd wedi ei ddiwygio gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol 2011, rhaid i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi ar y wefan manylion y cais uchod am gyfnod dim llai na 28 diwrnod dilynol gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cais wedi ei dderbyn.

Rhaid i'r ymgeisydd arddangos hysbysiad ar yr eiddo am gyfnod dim llai na 28 diwrnod dilynol gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cais wedi ei roi i'r awdurdod trwyddedu. Rhaid bod yr hysbysiad, ym mhob achos, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn, neu ar yr eiddo, sydd yn berthnasol i'r cais, lle y mae modd ei ddarllen yn hawdd y tu allan i'r eiddo, ac os yw'r eiddo yn fwy na phum deg metr sgwâr, bydd hysbysiad pellach, yn yr un fformat ac yn amodol ar yr un gofynion, angen ei arddangos bob pum deg metr ar hyd y wal allanol. Rhaid bod yr Hysbysiad sydd yn cael ei arddangos: o faint sydd yn cyfateb neu'n fwy nag A4, o liw glas ysgafn, wedi ei argraffu yn glir mewn inc du neu wedi ei ysgrifennu mewn ffont sydd yn cyfateb neu'n fwy na 16;

Mae'r ymgeisydd angen gosod Hysbysiad yn y Papur-newydd Lleol o leiaf unwaith yn ystod y 10 diwrnod gwaith gan ddechrau y diwrnod ar ôl gwneud cais i'r Awdurdod trwyddedu.

Mae Remarkable Events LLP yn gwneud cais am Drwydded Mangre Dros Dro yn Fferm Cwm Cayo, Gwehelog, Brynbuga, ar gyfer y cyfnod rhwng14eg Gorffennaf 2023 a'r 17eg Gorffennaf 2023

Mae'r Drwydded, os caiff ei chaniatáu, ar gyfer caniatáu cynnal y Gweithgareddau Canlynol:

Adloniant Trwyddedig a Gwerthu Alcohol

Mae unrhyw berson sydd yn dymuno cyflwyno sylwadau am y cais yn medru gwneud hyn drwy ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Canolfan Addysg Gymunedol y Fenni, Hen Heol Henffordd, y Fenni. Mae modd cyflwyno sylwadau am 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn.

Mae copi o'r cais am y drwydded uchod yn cael ei gadw gan yr Adran Drwyddedu. Mae modd gweld y cais rhwng dydd Llun a dydd Iau rhwng 9am a 5pm, a dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm oni bai am ddiwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga drwy drefnu apwyntiad o flaen llaw drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael ar-lein yma- www.monmouthshire.gov.uk

Mae'n drosedd i wneud datganiad ffug, boed yn fwriadol neu'n ddi-hid, ynglŷn â'r cais hwn. Mae'r ddirwy ar gyfer person sydd yn euog o'r fath drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiad: 23ain Mai 2023